


# croeso

## croeso i'r bala welcome to bala



Dewch i weld gogoniant y rhan yma o Eryri, gyda Llyn Tegid, y llyn naturiol mwyaf yng Nghymru, yn berl yn y canol.

Cwyd copaon uchel Aran Benllyn, Arenig Fawr a'r Berwyn o amgylch yr ardal hon a elwir Penllyn. Ardal o brydferthwch naturiol a diwylliant Cymreig. Yma mae'r iaith Gymraeg, un o'r ieithoedd hynaf yn Ewrop, yn ffynnu ac wrth gerdded i lawr y stryd fe glywch deuluoedd, ffrindiau a phobl busnes yn ei defnyddio yn hollol naturiol.

Mae hanes y dref yn faith a chyfoethog, yn ymestyn yn ôl i amser y Rhufeiniaid. Yn y Ganolfan Dwristiaeth gellir cael gafael ar bamffled 'Llwybr Tref Y Bala' sydd yn esbonio arwyddocad hanesyddol, crefyddol a gwleidyddol yr adeiladau a'r cofgolofnau.

Come and be inspired by this beautiful area in Snowdonia with Llyn Tegid, the largest natural lake in Wales, at its heart.

The high peaks of Aran Benllyn, Arenig Fawr and the Berwyn Mountains surround the region, known locally as Penllyn, which is noted not only for its natural beauty but also for its culture. The Welsh language, one of the oldest in Europe, still thrives here - the language of family, friends and business as a walk along the streets of Bala will prove.


The heritage of the town is a long and rich one, stretching back to Roman times. The Town Trail leaflet, available from the Tourist Information Centre, explains the historical, religious and political significance of the statues and old buildings.





## y llwybrau about the routes

Gwnaethpwyd asesiad trylwyr, ar bob un o'r teithiau a ddisgrifir yn y pamffled, gan Adran Briffyrdd, Cyngor Sir Gwynedd. I'ch tywys ar y llwybr iawn fe ymddengys rhif y llwybr wrth groesffyrdd. Gan mai ffyrdd cyhoeddus wedi eu tarmacio yw'r llwybrau, disgwylir traffig rheolaidd arnynt. Mae rhai o'r teithiau yn hir a phob un yn fryniog, ag felly, dylid gwisgo helmed, cario offer trwsio a sicrhau fod y beic mewn cyflwr campus a'r breiciau'n gweithio'n berffaith.



The routes described in this leaflet have been assessed by the Highways Department of Gwynedd County Council. When following a particular route you will be guided by numbered route signs at junctions. All routes are on tarmaced public roads, so do expect to encounter traffic. Some are long and all have hills, so please ensure that you wear a helmet, carry a puncture repair kit and that your bike (especially the brakes) is in good working order.



hwyllo sailing



hwyl fun

## gweithgareddau dŵr watersports

Mae'r ardal hon wedi ennill poblogrwydd fel canolfan 'gweithgareddau dŵr' - bu'n leoliad ar sawl achlysur i weithgareddau Canwio Byd Eang. Cynigir rafftio dŵr gwyllt a chanwio yng Nghanolfan Tryweryn, ger Frongoch. Mae Llyn Tegid yn boblogaidd fel lle i hwyllo, hwylyrddio a chanwio a gellir llogi cychod ac offer gan gwmni Bala Watersports sydd nepell o'r llyn a'r Ganolfan Hamdden.

The area has won world-wide acclaim as a centre for watersports - it has been the venue on a number of occasions for canoe World Championships. Canolfan Tryweryn at Frongoch provides facilities for white water rafting and canoeing. Llyn Tegid is very popular with sailors, windsurfers and canoeists and craft can be hired from Bala Watersports situated on the lake foreshore near the Leisure Centre.

## hamdden leisure

Yn Y Bala ceir Canolfan Hamdden [gyda phwl nofio, neuadd chwaraeon, ystafell ffitrwydd a sauna], Clwb Goff a Sinema ac yng Ngwersyll Yr Urdd, Glanllyn fe leolir y Ganolfan Bowlio Deg.

Ar Reilffordd Llyn Tegid, ceir un o drenau hynod Cymru, yn teithio ar hyd ochr ddeheuol y llyn o Lanuwchllyn i'r Bala. Am ragor o wybodaeth am logi beiciau ac atyniadau lleol eraill cysylltwch â'r Ganolfan Dwristiaeth.

Facilities in Bala include a Leisure Centre [with swimming pool, sports hall, fitness suite and sauna], a Golf Club and a Cinema. There is a Ten Pin Bowling Centre at Glanllyn.

Bala Lake Railway, one of the 'Great Little Trains of Wales' runs along the southern shore of Llyn Tegid from Lanuwchllyn to Bala. Information on bicycle hire and other local attractions is available from the Tourist Information Centre.





## ar lan llyn tegid lakeside

'...a beautiful evening, though rain clouds still hovered about. I wandered to the northern end of Llyn Tegid, which I had passed in the proceeding evening. The wind was blowing from the south, and tiny waves were beating against the shore which consisted of small brown pebbles.

The lake has certainly not its name, which signifies Lake of Beauty for nothing. It is a beautiful sheet of water, and beautifully situated.'

From the renowned Victorian travel book 'Wild Wales' by George Borrow

## bywyd gwyllt wildlife

Gwelir y fulfran a'r trochydd yn rheolaidd ar Llyn Tegid tra bo bronwen y dŵr a'r siglen yn gartrefol wrth yr afonydd. Y goedwig yw cynefin cnocell y coed a'r ucheldir sydd yn denu y gylfeinir, yr ehedydd a'r grugiar goch a du. Mae'r adar ysglyfaethus yn niferus yn yr ardal—y bwncath a welir amlaf. Weithiau gwelir y cudyll bach, bod tinwen a'r barcud coch. Mae poblogaeth y dyfrgi yn ffynnu unwaith eto yn yr afonydd cyfagos. Mae dwy ganolfan SSSI yn yr ardal, gwarchodfa RSPB ger Llyn Efyrynwy ac ar y Berwyn Gwarchodfa Natur Cenedlaethol.

Cormorants and divers are a frequent sight on Llyn Tegid and the rivers are home to dippers and wagtails. Woodland birds such as woodpeckers are common while the upland areas support populations of curlew, lark and red and black grouse. Birds of prey are numerous – the buzzard being the most frequently seen. Rarer sights include merlin, hen harrier and red kite. Otters have been successfully reintroduced to the rivers. There are two SSSIs in the area, an RSPB reserve at Llyn Efyrynwy and a National Nature Reserve on the Berwyn Mountains.

## yn yr awyr agored outdoor activities

Mae yma lwybrau cerdded ar gyfer pawb, rhai gwastad yn y dref ac wrth ochr y llyn, rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus yn croesi cefngwlad a rhai mwy heriol a llafurus i fyny Aran Benllyn, Arenig Fawr a'r Berwyn. Mae Llyn Tegid a'r afonydd cyfagos yn fannau delfrydol i bysgotwyr.

For walkers there are routes to suit all abilities, including flat leisure paths of the town and lakeside, a network of public footpaths criss crossing the countryside and strenuous walks up Aran Benllyn, Arenig Fawr and the Berwyn Mountains. There is excellent coarse and game fishing in Llyn Tegid and in the local rivers.



# beicio

o amgylch pentlyn

# bike routes

around bala


## llety places to stay

Mae'r Bala yn fan delfrydol i dreulio amser i fwynhau yr ardal leol neu i gyrraedd Gogledd a Chanolbarth Cymru, gan fod mynedfa naturiol yn arwain oddi yma i Eryri a mannau poblogaidd eraill, oll o fewn awr yn y car. Cynigir ystod eang ac amrywiol o lefydd aros yn y dref a'r ardaloedd cyfagos. Yn y Ganolfan Dwristiaeth fe'ch croesawir yn gynnes iawn a bydd y staff bob amser yn barod i roi gwybodaeth a chyngor pan fyddwch yn dewis llety.

Bala is an ideal base for those who wish to explore the locality and indeed North and Mid Wales, as it is at a gateway to Snowdonia and within an hour's drive of many popular attractions. The range of accommodation available is wide and varied both in the town and in the surrounding area. The friendly staff at the Tourist Information Centre will be glad to give advice on selecting accommodation to suit your requirements.

 01678 521021  
bala.tic@gwynedd.gov.uk / www.visitbala.org





# llwybrau beicio cycle routes





**Bala - Llanuwchllyn**  
**Pellter: 10 milltir**  
**Graddfa: hawdd - cymhedrol**

Mae'r daith hon yn dilyn ymyl Llyn Tegid, llyn naturiol mwyaf Cymru. Lleolir y llyn mewn hollt ddaearogol ac ynddo ceir y pysgod unigryw y gwyniad. Mae pysgota a hwylio yn boblogaidd yma, a cheir mynediad diogel at lan y llyn yn Llangower. Ar y daith hon gwelir Aran Fawddwy, Cadair Idris ac Arenig Fawr, rhai o fynyddoedd uchaf Eryri. Mae Rheilffordd Llyn Tegid yn cynnig gwasanaeth rhwng Y Bala a Llanuwchllyn a gellir cludo beiciau ar y tren os trefnir hynny ym mlaen llaw

**Bala - Llanuwchllyn**  
**Distance: 10 miles**  
**Grade: easy - moderate**

This route takes you alongside Llyn Tegid, Wales' largest natural lake. Set in a rift valley and home to the Gwyniad [a species of fish unique to this lake], Llyn Tegid is a very popular venue for sailing and fishing; there is safe access to the lake foreshore at Llangower. Visible from the route are Aran Fawddwy, Cadair Idris and Arenig Fawr, some of Snowdonia's highest mountains. The Bala Lake Railway runs between Bala and Llanuwchllyn and by prior arrangement bicycles can be carried for those wishing to return by train.



**Bala - Llanuwchllyn - Llyn Efyrrwy - Bala**  
**Pellter: 23 milltir**  
**Graddfa: anodd**


Mae'r llwybr beicio hwn, sy'n arwain tros fynyddoedd y Berwyn, yn dilyn taith 11 ond ychydig cyn cyrraedd Llanuwchllyn mae'n gwyrto i'r De cyn dechrau dringo i Fwlch y Groes [y bwlch uchaf i gerbydau yng Nghymru: 546m]. Dyma daith heriol i feicwyr gan fod mannau dringo a disgyn serth, ond bydd golygfeydd godidog o fynyddoedd a dyffrynnoedd dyfnion a ffurfiwyd gan afonydd ia yn werth eu gweld. Mae adar y rhosdir yn ffynnu yn y math yma o gynefin ac ym mhen deheuol Llyn Efyrrwy lleolir canolfannau Ymwelwyr ac RSPB

**Bala - Llanuwchllyn - Llyn Efyrrwy - Bala**



**Distance: 23 miles**  
**Grade: difficult**

This route, which takes you through the Berwyn mountain range, initially follows the same direction as route 11 but just before Llanuwchllyn heads south to start its climb up to Bwlch y Groes [at 546 metres, the highest road pass in Wales]. This is a demanding ride with lots of climbing and steep descents, but you will be rewarded with magnificent views of mountains and deep valleys carved by glaciers. Moorland birds thrive in this habitat and at the southern end of Llyn Efyrrwy [a man made reservoir] are Visitors' and RSPB information centres.



**Llanuwchllyn - Trawsfynydd**  
**Pellter: 14 milltir**  
**Graddfa: anodd**

Dyma un o hen ffyrdd y porthmyn, yn cysylltu Llanuwchllyn a Thrawsfynydd. Taith sy'n dringo trwy dir serth a gwyllt dyffryn afon Lliw a chyrraedd 530m [Bwlch Pen-y-Feidiog]. Yna'r ffordd yn troelli a disgyn am Drawsfynydd ac yn croesi olion ffordd Rufeinig Sarn Helen gyda Chadair Idris a Rhinogydd yn drawiadol y pellter. Yn Nhrawsfynydd mae Canolfan Tref-tadaeth [Llys Ednowain] a nepell yng Nghoed y Brenin ceir un o ganolfannau beicio mynydd gorau ym Mhrydain.

**Llanuwchllyn - Trawsfynydd**  
**Distance: 14 miles**  
**Grade: difficult**

This is an ancient drover's route linking Llanuwchllyn with Trawsfynydd. It ascends the Lliw valley through steep and wild countryside to reach a high point of 530 metres [Bwlch Pen-y-Feidiog]. From here the road descends and winds its way to Trawsfynydd, crossing the remains of Sarn Helen, a Roman road and affording striking views of Cadair Idris and the Rhinog mountains. In Trawsfynydd there is a Heritage Centre [Llys Ednowain] while nearby at Coed y Brenin is the UK's premier mountain bike centre.



**Llanuwchllyn - Dolhendre - Llanuwchllyn**  
**Pellter: 4 milltir**  
**Graddfa: hawdd**

Taith feicio hamddenol yn dilyn rhan isaf a phrydferth afon Lliw, sydd hefyd yn boblogaidd gyda physgotwyr brithyll. Nepell o'r ffordd mae olion gwaith aur ac yng Ngharnodochan un o gestyll y Tywysog Llewelyn. Yn agos i bont Dolhendre edrychwch ar y plac wal diddorol ar y teras o elusendai. Cyn cyrraedd pentref Llanuwchllyn fe welwch gerflun o'r awdur a'r addysgwyr O.M.Edwards ac hefyd ei fab Syr Ifan ab Owen Edwards, sylfaenydd Urdd Gobaith Cymru.



**Llanuwchllyn - Dolhendre - Llanuwchllyn**  
**Distance: 4 miles**  
**Grade: easy**

A leisurely ride following the lower reaches of the picturesque afon Lliw which is popular with trout fishermen. The route is overlooked by the remains of disused gold workings and one of Prince Llewelyn's castles, at Carnodochan. Look out for the fascinating wall plaque on the terrace of alms houses near the bridge at Dolhendre. On your return to Llanuwchllyn you pass a statue of O.M Edwards, author and scholar, and also his son Sir Ifan ab Owen Edwards, who established the Urdd [the Welsh Language Youth Movement].



**Bala - Rhyduchaf - Parc - Bala**  
**Pellter: 8 milltir**  
**Graddfa: anodd**

Taith gymharol fer a bryniog gyda golygfeydd agored o'r bryniau a'r mynyddoedd sy'n amgylchynu'r Bala a Llyn Tegid ac sydd yn darparu cyflwyniad campus i'r ardal. Mae'r gwastadir corsiog yn gynefin perffaith i'r gyfeinir, eheddyd a'r adar ysglyfaethus fel y bwncathod, pob un gyda'i gri arbennig ei hun. Rhaid cymryd gofal wrth ddisgyn i lawr y rhiw serth i'r ffordd fawr yn Llanyrcil, ger Llyn Tegid.

**Bala - Rhyduchaf - Parc - Bala**  
**Distance: 8 miles**  
**Grade: difficult**

This relatively short but hilly route affords the rider open views of the hills and mountains surrounding Bala and Llyn Tegid and as such provides a good introduction to the area. The marshy upland plateau is home to curlews, larks and predators such as buzzards, each with its distinctive call. Take care when descending the steep hill to the main road alongside Llyn Tegid.



**Bala - Llandderfel - Cynwyd**  
**Pellter: 11 milltir**  
**Graddfa: hawdd - cymhedrol**

Dyma daith hamddenol yn dilyn dyffryn afon Ddyfrdwy, o'r Bala i Gynwyd, trwy bentref tŷws Llandderfel. Toc wedi cychwyn ar y daith cewch gipolwg ar Llyn Tegid a thref Y Bala. Ymhen rhyw filltir, ar ôl croesi pont gul, fe welwch blac ar graig, yn nodi mai hwn oedd safle y treialon cŵn defaid cyntaf erioed yn 1873. Adeiladwyd yr hen reilffordd ar hyd y dyffryn, gan Henry Robertson yn y bedwaredd ganrif a'r bymtheg, a fo hefyd adeiladodd Pale Hall, sydd ar y chwth cyn croesi'r Ddyfrdwy yn Llandderfel. Tu draw i Llandderfel, ble mae'r dyffryn yn agor allan, gwelir dolydd gwastad hyfryd, yn wrthgyferbyniol i fryniau serth y Berwyn tua'r De. Yna fe groesi'r afon Ddyfrdwy drachefn a chyrraedd Cynwyd dros bont brydferth a adeiladwyd yn 1612.

**Bala - Llandderfel - Cynwyd**  
**Distance: 11 miles**  
**Grade: easy - moderate**

This leisurely route follows the Dee Valley from Bala to Cynwyd via the pretty village of Llandderfel. Shortly after setting off you are rewarded with good views of Llyn Tegid and Bala and another mile brings you to a rocky outcrop where there is a plaque marking the site of the first ever sheepdog trials, held in 1873. The railway along the valley floor was built by Henry Robertson in the nineteenth century and it was he who also built Pale Hall which you pass just before crossing the River Dee at Llandderfel. Beyond Llandderfel the valley opens out and its peaceful level meadows contrast with the the Berwyn Mountains which rise steeply to the south. The route re-crosses the Dee to enter Cynwyd via a beautiful bridge which was built in 1612.